

## **Disgrifiad Swydd**

### **- Swyddog Datblygu (2 swydd llawn amser)**

A hoffech weithio gydag un o'r prif fudiadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ar hyd a lled Cymru?

Bydd y 2 ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan o dîm bychan sy'n cefnogi gwaith y Mentrau laith ledled Cymru.

Mae'r swyddi hyn yn gyffrous ac yn galw am unigolion hyblyg, brwdfrydig a hyderus sydd yn gallu meistrolï nifer o elfennau amrywiol sydd ynghlwm â gwaith Mentrau laith Cymru.

Bydd gofyn gallu teithio i amryw o leoliadau ledled Cymru yn ôl y galw.

Posibilrwydd o weithio yn swyddfeydd amryw o Fentrau laith ar draws Cymru, ond bydd y cyfnod prawf cychwynnol o 6 mis yn Llanrwst, Llandeilo neu Gaerffili

### **Prif Feysydd Gwaith y ddwy swydd:**

- Cyfathrebu
- Trefnu gweithgareddau ac ymgyrchoedd
- Gweinyddu cyllid
- Trefnu hyfforddiant

### **Dyletswyddau**

***\* Bydd y ddau ymgeisydd llwyddiannus yn rhannu'r dyletswyddau, felly bydd y cyflogwr yn gallu bod yn hyblyg wrth ddynodi pa unigolyn fydd yn gwneud y gwahanol ddyletswyddau. Sicrhewch wrth gwblhau'r ffurflen gais eich bod yn glir pa rai o'r dyletswyddau y mae gennych y profiad o'u gwneud\****

- Cefnogi'r Mentrau laith ar draws sawl maes penodol gan gynnwys: hyfforddiant, cyfathrebu, hyrwyddo, rhwydweithiau cymdeithasol, gwybodaeth, adnoddau dynol, ymateb i ymgynghoriadau a threfnu cynadleddau
- Datblygu gwefan MIC ymhellach a'i diweddarau yn rheolaidd
- Sicrhau proffil uchel i'r Mentrau laith a'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol
- Cydlynu ymweliadau MIC â'r Eisteddfodau, a digwyddiadau perthnasol eraill er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a gwaith y Mentrau yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Paratoi cylchlythyr rheolaidd y Mentrau laith

- Cydweithio yn agos gydag Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'u hymgyrchoedd marchnata'r Gymraeg
- Trefnu, cynnal a chofnodi cyfarfodydd
- Cydweithio â phartneriaid allweddol yn y maes
- Rheoli cyllideb a chyfrifon y cwmni
- Mewnbynnu i geisiadau ariannol posib
- Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chynrychioli buddion MIC a'r Mentrau
- Mewnbynnu i greu llyfrgell adnoddau i'r Mentrau
- Trefnu rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff a gwirfoddolwyr y Mentrau Iaith sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r Mentrau
- Datblygu partneriaethau â chyrrff eraill er mwyn adnabod a diwallu anghenion gweithio ar y cyd
- Datblygu prosiectau hyfforddi a rhannu arfer da rhwng y Mentrau Iaith
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant a chyfarfodydd perthnasol
- Cydweithio â Swyddogion eraill MIC i gyflawni gweithgareddau a phrosiectau amrywiol
- Paratoi adroddiadau rheolaidd ar y gwaith a gyflawnwyd er mwyn adrodd i Bwyllgor Gweithredol MIC a Llywodraeth Cymru
- Ymgymryd ag unrhyw dasgau a gofynion eraill rhesymol

## **Sgiliau / Profiad hanfodol**

- Yn drefnus ac effeithiol, ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngpersonol o safon uchel.
- Y gallu i drefnu gwaith heb gyfarwyddyd uniongyrchol gan ddatblygu syniadau a strategaethau newydd.
- Y gallu i gydweithio ag eraill ac ennyn diddordeb a brwdfrydedd.
- Sgiliau cyfrifiadurol da.
- Yn meddu ar drwydded yrru lân a chyfredol a defnydd o drafndiaeth eich hunan.
- Yn rhugl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) - ar lafar ac ysgrifenedig.

## **Sgiliau / profiad dymunol-**

- Profiad o weithio yn y maes cyfathrebu/ hyrwyddo/ gwybodaeth
- Profiad o reoli cyllid/ cyllidebau
- Profiad o lunio ceisiadau ariannol
- Profiad o gydlynu gweithgareddau
- Profiad neu wybodaeth am reolaethau adnoddau dynol
- Profiad o drefnu a / neu gynnal hyfforddiant ar bynciau amrywiol
- Profiad o drefnu cynadleddau a/ neu gydlynu cyfarfodydd
- Profiad o ysgrifennu adroddiadau
- Profiad a dealltwriaeth o waith y trydydd sector yng Nghymru
- Dealltwriaeth o waith MIC, Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg
- Dealltwriaeth o bolisi iaith a'r maes cynllunio iaith yng Nghymru

Diwedd